YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor y Gwanwyn 2019 – Dosbarth Derbyn Mrs Jenkins

Thema'r tymor yw:



## Tyllau, Gofodau a Chuddfannau

Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor.

**Sgiliau Cymhwysedd Digidol:**

- Datblygu ein sgiliau datrys problemau a modelu
- Dysgu i ddefnyddio'r Rhyngrwyd yn ddiogel

**Addysg Grefyddol:**

- Dysgu am y Flwyddyn Newydd Tseiniaidd, Dydd Gŵyl Dewi a Phasg

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

- Dysgu am wahanol fathau o ofodau gan gynnwys tyllau, bylchau, cysgodfeydd a thwneli
- Dysgu am anifeiliaid sy'n byw mewn tyllau, twneli ac ogofau
- Dysgu sut i ddilyn cyfarwyddiadau a chyfarwyddyd

**Datblygiad Corfforol**

- Datblygu ein ffitrwydd
- Datblygu sgiliau echddygol bras, sgiliau llawdrin manwl a chydsymud llaw-llygad

**Datblygiad Creadigol**

- Creu cerfluniau sydd wedi'u hysbrydoli gan waith Barbara Hepworth
- Dysgu caneuon sy'n ymwneud â'r thema ac amser y flwyddyn
- Dysgu sut i adeiladu gofodau gydag ystod o ddeunyddiau creadigol
- Archwilio creu synau a cherddoriaeth i gyd-fynd â'r llyfr 'Hela Arth'

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol**

- Chwarae gemau i ddatblygu sgiliau canolbwyntio
- Dysgu sut i archwilio gofodau dan do ac yn yr awyr agored yn hyderus
- Dod yn fwy annibynnol a hyderus yn ein dysgu
- Dysgu am a dathlu Diwrnod Santes Dwynwen

**Ymweliadau/Ymwelwyr**

Gweithgaredd Ysgol Goedwig ym mharc Singleton **8/2/19**

Pori Drwy Stori **14/2/19**

**Cofiwch ymweld â www.yggbrynymor.co.uk - 'adran y plant – tudalennau dosbarth' am fwy o fanylion.**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd! @YGGBrynymor1**

**Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu**

- Creu cornel chwarae rôl 'Hela Arth'
- Gwrando ar lawer o straeon a cherddi sy'n ymwneud â'r thema
- Dysgu caneuon, rhigymau a hwiangerddi
- Gweithgareddau *Tric a Chlic* ac *Iaith ar Daith*
- Mynegi ein hunain drwy wneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cychwynnol

**Datblygiad Mathemategol**

- Datblygu ein dealltwriaeth o iaith fathemategol drwy chwarae rôl a chwarae gemau
- Canu caneuon ac adrodd rhigymau rhif
- Cyfrif, trefnu cymharu a dosbarth gwrthrychau
- Datrys problemau syml yn ymarferol
- Parhau i ddysgu adnabod ac ysgrifennu rhifau
- Ymchwilio i arian, fesurau, siâp a phatrwm